

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llangywer

ar 12^{ed} o Fai 2014

Presennol: Olwen Jones (yn cadeirio), Gwyn Roberts, Eleri Jones, John Morris, Emyr Jones, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Linda Morris, W D Williams

- 1 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2013
- 2 Etholwyd Linda Morris yn Gadeirydd am y flwyddyn 2014-15
- 3 Etholwyd Olwen Jones yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2014-15
- 4 Enwebwyd W D Williams yn gynrychiolydd i gyfarfodydd ardal Un Llais Cymru
- 5 Enwebwyd W D Williams a Linda Morris fel cynrychiolwyr ar Bartneriaeth Penllyn
- 6 Adolygwyd a mabwysiadwyd Rheolau Sefydlog y Cyngor (sy'n cynnwys Côt ymddygiad yr aelodau)
- 7 Mabwysiadwyd Rheoliadau Cyllidol a rhoddwyd ystyriaeth i'r Asesiad Risgiau Ariannol, gan gynnwys cymryd camau ar unwaith i leihau costau cynnal y fynwent.
- 8 Adolygwyd a mabwysiadwyd Polisi Amgylcheddol y Cyngor Cymuned
- 9 Adolygwyd a mabwysiadwyd polisi Cyfle Cyfartal y Cyngor
- 10 Adolygu a mabwysiadu trefniadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- 11 Adolygwyd a mabwysiadwyd Trefn Cwynion y Cyngor
- 12 Mabwysiadwyd Strategaeth Buddsoddi ar gyfer y Cyngor
- 13 Cadarnhawyd Cytundeb rhwng y Cyngor Cymuned fel aelod o Bartneriaeth Penllyn â Chyngor Gwynedd
- 14 Adolygwyd a chadarnhawyd trefniadau yswiriant
- 15 Cadarnhawyd Mantolenni ac Adroddiad Ariannol ar gyfer yr Archwilydd a gwiriwyd fod y Rhybudd i'r cyhoedd wedi ei arddangos ar hysbysfwrdd y Neuadd.
- 16 Cadarnhawyd dyddiad cyfarfodydd 2014-15:
14/7/14, 8/9/14, 10/11/14, 12/1/15, 9/3/15